

## Llwyth yr Ogiek, Kenya

Mae tua 5,000 o llwyth yr Ogiek yn byw mewn ardal o 178,000 hectar o goedwig a rhostir ar Fynydd Chepkitale, sy'n rhan o Fynydd Elgon yng ngogledd orllewin Kenya, ger Uganda.

Mae'n ardal bwysig ar gyfer bywyd gwyllt a phlanhigion, ac ar gyfer llwyth yr Ogiek hefyd. Maen nhw wedi byw mewn harmoni â'r goedwig ers cenedlaethau lawer. Mae'r goedwig hefyd yn bwysig, gan fod y glaw sy'n disgyn yno yn mynd i mewn i afonydd ac yn darparu dŵr i'r bobl sy'n byw islaw'r mynydd.

Mae ymchwil wedi dangos bod eliffantod yn treulio dros 80% o'u hamser ar dir yr Ogiek, am eu bod nhw'n teimlo'n fwy diogel ger yr Ogiek nag y maent yn y Parc Cenedlaethol gerllaw, gan fod pob aelod o'r Ogiek wedi cael eu gorfodi drwy rym i ymadael a'r parc gan adael i botswyr, i bob pwrpas, symud o gwmpas yn eithaf rhwydd. Mae staff Gwasanaeth Bywyd Gwyllt Kenya wedi dweud "pe bai'r Ogiek yn cael eu troi allan, gallwch ddweud ffarwel wrth yr eliffantod". Mae datgoedwigo yn lleihau mewn ardaloedd lle mae cymunedau lleol sydd wedi bod yn byw gyda'r goedwig ers canrifoedd yn cael hawliau i'w tir.

### Y problemau sy'n wynebu'r gymuned:

Yn 2000, dywedodd Llywodraeth Kenya fod tir yr Ogiek yn warchodfa anifeiliaid hela genedlaethol, ac na ddylai neb fyw yno. Ers hynny, maen nhw wedi wynebu cael eu troi allan, trais a hyd yn oed cael eu cartrefi wedi'u llosgi gan Wasanaeth Coedwigoedd Kenya. Pan mae adnoddau naturiol y goedwig a'r ardal yn lleihau, mae'n niweidio lles a ffordd o fyw yr Ogiek. Maen nhw'n dibynnu ar y ddarpariaeth o'r adnoddau hyn, fel planhigion meddyginiaethol ar gyfer y gymuned, blodau ar gyfer gwenyn ar gyfer eu mêl, a thir pori ar gyfer eu da byw.

Mae'r Llywodraeth wedi bod yn gadael i bobl sefydlu ffermydd bach mewn rhannau eraill o'r goedwig hefyd. Mae'r bobl hyn i fod i fyw mewn harmoni â'r goedwig a pheidio â'i dinistrio ond mewn gwirionedd, maen nhw'n aml yn dinistrio ardaloedd o goedwig.

## **Beth maen nhw eisiau ei wneud**

Mae llwyth yr Ogiek eisiau i'w tir gael ei adfer i fod yn dir ymddiriedolaeth, a fyddai'n golygu eu bod yn gallu byw yno a rheoli'r hyn sy'n digwydd. Maen nhw eisiau eu deddfau traddodiadol o ran sut i ymddwyn yn y goedwig. Maen nhw hefyd eisiau gwella'r gwasanaethau addysg ac iechyd ar gyfer eu pobl.

## **Beth mae'r prosiect yn ei wneud?**

Mae'r prosiect yn cefnogi llwyth yr Ogiek i geisio cael eu hawliau cyfreithiol, ac yn eu helpu i geisio siarad â chyrff y Llywodraeth. Mae'r llwyth yn dysgu sut i ddefnyddio mapio GPS i gasglu gwybodaeth am eu hardal, fel bod modd cynllunio'r defnydd ohono'n effeithiol yn y dyfodol.

Mae sgowtiaid cymunedol yn cael eu hyfforddi, a fydd yn ceisio stopio pobl rhag potsio bywyd gwyllt, torri coed i wneud siarcol, a dinistrio'r goedwig.

Mae pobl yn mynd i agor canolfan, lle gall gwybodaeth draddodiadol gael ei throsglwyddo i blant ac eraill.

## **Pa mor llwyddiannus ydy'r Prosiect hyd yn hyn:**

Mae'r Ogiek wedi ysgrifennu eu cyfreithiau traddodiadol i lawr am y tro cyntaf.

Mae'r Ogiek a chyrff y Llywodraeth wedi siarad â'i gilydd yn fwy. Mae'r gymuned wedi gallu cael cyfreithiwr, i fynychu achosion llys a gwneud penderfyniadau gwybodus ar gynnydd eu hachosion llys yn yr Uchel Lys yn Kitale.

Yn y cyfnod hwn, ymwelodd grŵp o ASau â Chepkitale. Dywedodd yr AS a gadeiriodd yr ymweliad; 'am y tro cyntaf, rydym wedi gweld cymuned, cymuned o bobl Dorobo, yr Ogiek, sydd wedi dangos ei bod hi'n bosibl byw yn y goedwig, a'i gwarchod.'

Mae 90% o'r ganolfan adnoddau gymunedol wedi'i gwblhau, ac mae'r rhaglen hyfforddi athrawon mewn datblygu plentyndod cynnar yn parhau. Maen nhw wedi bod yn dogfennu hanesion claniau, ac mae map cymunedol wedi'i wneud sy'n dangos tiroedd eu hynafiaid.

## Pobl

Yn y fideo hwn, mae Peter Kitelo, aelod o'r gymuned, yn sôn am yr hyn maen nhw'n ceisio ei wneud. (y 3 munud olaf ydy'r mwyaf defnyddiol) -

<https://sizeofwales.org.uk/projects/defending-ogiek-communities/#video>

ac maen nhw wedi creu gwefan eu hunain -

<https://www.chepkitale.com>

Mae ffilm arall 11 munud yn fan hyn, sy'n egluro llawer mwy-

<https://www.youtube.com/watch?v=aqUjRnXp8Rw>